Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

CBDO/NW/0826

# SWYDDOG DATBLYGU BUSNESAU GOFAL PLANT GOGLEDD CYMRU

## Pecyn Ymgeisio

I GYRCHU'R PECYN YMA YN SAESNEG, CLICIWCH YMA

A company limited by guarantee 4296436
Registered Charity 1093260 Working in partnership with: Llywodraeth Cymru Welsh Government

# AMDANOM NI

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw'r gyfundrefn genedlaethol ar gyfer Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu.

Ein cenhadaeth yw bod yn llais Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o ansawdd sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Am wybodaeth bellach ar ein gwerthoedd a'n nodau strategol i Glybiau All-Ysgol, cliciwch yma.

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn rhedeg naill ochr i'r diwrnod ysgol ac yn ystod y gwyliau, gan alluogi rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'w gwaith neu hyfforddiant a phlant i fwynhau darpariaeth o ansawdd sy'n canolbwyntio ar chwarae ac wedi ei staffio gan Weithwyr Chwarae cymwysedig. Mae dros 1500 o Glybiau Brecwast, Ôl-Ysgol a Gwyliau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog ar hyd a lled Cymru.

Fel elusen gofrestredig, Bwrdd Ymddiriedolwyr gwirfoddol neu Gyfarwyddwyr sy'n gwneud penderfyniadau polisi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Etholir y bobl hyn yn flynyddol a dônt o Glybiau All-Ysgol ar hyd a lled Cymru.

**Rydym yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant i fusnesau gofal plant:**

**Cefnogaeth i Fusnesau Gofal Plant**
Gallwn helpu unigolion, ysgolion, darparwyr gofal plant presennol, aelodau pwyllgor ac eraill i sefydlu busnesau gofal plant, a chefnogi'r rhai sy'n bodoli eisoes.

**Hyfforddiant**
Rydym wedi bod yn hyfforddi'r sector Gofal Plant All-ysgol ers dros 20 mlynedd i ddatblygu gweithlu proffesiynol sy'n cofleidio ac yn cefnogi chwarae y mae plant yn ei hunan-gyfarwyddo.

Rydym yn darparu cymwysterau Gwaith Chwarae (Mae NCFE, y corff dyfarnu cymwysterau, yn ein graddio'n 'rhagorol'. Hefyd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ystod o weithdai gweithgaredd yn seiliedig ar chwarae. Gweler ein digwyddiadau a'n Cyfarwyddiadur hyfforddi diweddaraf yma.

# MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

## Profwch y gwahaniaeth a wna Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

**Effaith sydd o Bwys:**

Profwch wir lawenydd cael barhaol ar fywydau ifanc.

Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs byddwch yn rhan o dîm sy'n creu Cymru lle gall plant chwarae a chymunedau ffynnu.

**Eich Amser i Ymlacio**

Mwynhewch egwyl cwbl haeddiannol gyda'n pecyn gwyliau hawl. Rydym yn credu mewn cydbwyso bywyd a gwaith, ac yn sicrhau eich bod yn cael amser i ail-gyfnerthu a mwynhau bywyd y tu hwnt i'r gweithle.

**Hyblygrwydd sy'n Hwylus:**

Rydym yn deall y gofynion sydd arnom mewn bywyd. Cewch gofleidio gyrfa llawn boddhad gan hefyd fwynhau'r hyblygrwydd sydd ei angen arnoch drwy ein cynlluniau Amser o'r Gwaith â Thâl a Gweithio Ystwyth. Mae eich llesiant o bwys, ac rydym ni yma i'ch cefnogi ar eich taith.

**Rhyddhewch eich Potensial: :**

Agorwch y drws i fyd o dyfiant drwy ein hyfforddiant cynhwysfawr a'n rhaglenni datblygu.

Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, buddsoddwn yn eich sgiliau, gan sicrhau eich bod yn cyrraedd eich potensial i'r eithaf.






Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

## Er mwyn eich llesiant

Trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn ogystal â mynediad at ein Hyb Lles a Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, cyfarfodydd goruchwylio misol gyda'ch rheolwr llinell ac arfarniadau blynyddol.

## Er mwyn eich iechyd

28 diwrnod o wyliau pro rata ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata ar gyfer gweithio rhan-amser) ynghyd â manteision ychwanegol yn seiliedig ar hyd y gwasanaeth a ddaw ar gael am 3 blynedd o wasanaeth a 5 mlynedd o wasanaeth sy'n cynnwys diwrnodau gwyliau blynyddol ychwanegol a mynediad i Perkbox. Rydym hefyd yn darparu yswiriant iechyd corfforaethol trwy Simply Health lle, ar ôl cyfnod prawf o chwe mis, mae gweithwyr sydd wedi'u cadarnhau yn eu swydd yn cael Yswiriant Simply Health – yn rhad ac am ddim – a'r opsiwn i dalu am yswiriant ychwanegol ar gyfer priod / partner a phlant.

## Er mwyn eich diogeledd ariannol

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithredu cynllun pensiwn rhanddeiliaid ar y cyd ag Aviva. Gall cyflogeion, yn amodol ar rai meini prawf cymhwysedd, ymuno â'r cynllun pensiwn. Bydd cyflogeion cymwys yn cael cyfraniad o 6% tuag at eu pensiwn gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, cyhyd â bod y cyflogai'n cyfrannu 2% o'i gyflog crynswth sylfaenol i'r cynllun. Hefyd tâl mamolaeth estynedig, tâl tadolaeth a thâl mabwysiad.
Telir lwfans milltiredd tra ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn ogystal telir treuliau parod, cyfyngedig, am deithio a chynhaliaeth tra byddir ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Ôl-delir treuliau yn fisol.



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# SUT BETH YW GW ITHIO I CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS?



"Rwy'n cael bod y cytundeb gweithio ystwyth ynghyd â'r system TOIL yn cyd-fynd yn dda â'm hymrwymiadau ac yn rhoi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae fy rôl yn rhoi boddhad i mi ac rwy'n mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n cyd-dynnu."

"Rydw i wir yn mwynhau gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, mae'r tîm i gyd yn gyfeillgar ac yn wych i weithio gyda nhw. Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yn cefnogi llywodraethu, cynaliadwyedd ac ansawdd mewn clybiau Gofal Plant y tu alan i oriau ysgol, gan fod fy ngwaith yn amrywiol iawn ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Rwy'n cael pleser gwirioneddol o gefnogi'r sector, yn ogystal â gwybod fy mod yn gwneud gwahaniaeth i roi gofal plant cynaliadwy o safon a phrofiadau chwarae mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol."





"Fel aelod newydd o'r tîm rydw i wedi cael croeso gyda breichiau agored ac yn teimlo fel pe bai'r rhan o'r tîm wedi bod yma am gyfnod byr yn unig. Mae'n lle hyfryd, prysur i weithio ac mae pawb wedi bod yn gyfeillgar a chefnogol iawn."

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# RÔL Y YN SWYDDOG DATBLYGU BUSNES GOFAL PLANT GOGLEDD CYMRU

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dymunopenodi Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant rhan-amser ( 25.9 awr), i'w leoli yn ein swyddfa ym Mae Colwyn gyda chytundeb gweithio ystwyth yn ei le.

Mae'r cyflog o £33,366 (£34,433.71 yn ôl y gyfradd ar ôl derbyn cadarnhad mewn swydd) wedi ei seilio ar wythnos 37 awr, yn daladwy'n fisol drwy drosglwyddiad credyd. Mae oriau hyblyg yn ofynnol i'r swydd hon, a gallai gynnwys nosweithiau, penwythnosau a nosau achlysurol oddi cartref. Mae 28 diwrnod o wyliau yn ôl y gyfradd ynghyd â gwyliau cyhoeddus. Rhed y flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst.

Mae'r Tîm Datblygu'n cael ei arwain gan y Rheolwr Datblygu; bydd yr ymgeiasydd yn atebol i'r Swyddog Hyfforddi Arweiniol a'r Asesydd Anasawdd Mewnol (AAM) Arweiniol.  Mae prif gyfrifoldebau'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant wedi eu rhestru yn y meini prawf gwerthuso. Bydd arnoch angen dealltwriaeth o becynnau Windows a Microsoft, yn cynnwys Word, Excel, Outlook a Teams, a bod yn barod i ddysgu am – a defnyddio – pecynnau meddalwedd newydd a systemau monitor ar-lein.

Prif ffocws y rôl yw helpu cymunedau drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sydd o ansawdd, ac wedi eu llywodraethu'n gadarn, ac  ateb y galw am fwy o ofal plant wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar hyd a lled Cymru.

Dylai fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus ymagwedd hyblyg at waith a gallu addasu i bwysau, terfynau amser a llwythi gwaith amrywiol. Rydym yn ceisio cyflogi unigolyn sy'n awyddus i ddysgu a chyflawni ei botensial drwy ddatblygu i ateb y manylion a nodir yn y meini prawf gwerthuso. Byddwn yn gweithio gyda'r unigolyn i ddeall a bodloni gofynion y rôl, parhau â'i ddatblygiad proffesiynol a thyfu gyda'r tîm a'r sefydliad.

Mae pob gweithiwr yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynllun strategol y sefydliad.

Os ydych yn awyddus i ymuno â'n tîm; yn flaengar, brwdfrydig, egnïol, a hyblyg yn eich agwedd at waith, edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar eirda boddhaol a chyfnod prawf o chwe mis.

Bydd Gwiriad Manylach y GDG ac aelodaeth gyda Gyngor Addysg y Gweithlu yn ofynnol cyn cyflogi (os nad yw'r rhain eisoes yn eu lle); telir y gost gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Mae arian parhaus yn mater sy'n parhau i fod yn fater cymhleth yn y sector giwrfoddol. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs rywfaint o gyllid craidd a chyllid prosiect gan Llywodraeth Cymru, gyda chyllid ychwanegol gan rai Awdurdodau Lleol sy'n comisiynu gwasanaethau Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i ddatblygu Gofal Plant All-Ysgol yn y sir, a chyllid prosiect gan Elusennau/Ymddiriedolaethau.

**Ariannwyd y swydd hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sef prosiect a fydd yn gweithredu tan Fehefin 2029.**

# DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd**
Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Gogledd Cymru

**Lleoliad**
I weithio o’n swyddfa ym Mae Colwyn, gyda chytundeb gweithio ystwyth yn ei le, gan gynnwys teithio a gweithio ar draws siroedd yng Ngogledd Cymru a Powys.

**Oriau Gwaith**
25.9 awr yr wythnos (Dydd Llun – Dydd Gwener), swydd dros dro hyd Mai 2027

**Yn Atebol I’r**
Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Arweiniol

**Cyfradd Dâl**
£33,366 (£34,433.71 ar lwyddo i dderbyn cadarnhad mewn swydd, fel arfer wedi 6 mis)

# TASGAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Prif ffocws y rôl yw helpu cymunedau drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sydd o ansawdd, ac wedi eu llywodraethu’n gadarn, ac ateb y galw am fwy o ofal plant wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar hyd a lled Cymru

1. Datblygu a sefydlu Clybiau Gofal Plant All-Ysgol newydd a/neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol. Nodi, gyda chymorth partneriaethau gofal plant, ardaloedd ar gyfer datblygu clybiau.
2. Cefnogi clybiau newydd a phresennol a'u helpu i ddatblygu safonau ansawdd, gan gynnwys cefnogaeth ac anogaeth i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
3. Cefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol i wella eu cynaliadwyedd.
4. Cefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol i fabwysiadu strwythurau a llywodraethu cyfreithiol cadarn, gan gynnwys cymorth i bwyllgorau anghorfforedig symud i strwythur atebolrwydd cyfyngedig mwy addas.
5. Nodi anghenion hyfforddi gofal plant all-ysgol a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi gan gynnwys cymwysterau Gwaith Chwarae a datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi cofrestru ag AGC ledled Cymru ac ehangu darpariaeth Gymraeg mewn cydweithrediad â'r Mudiad Meithrin lle bo hynny'n briodol. Ymgymryd â hyfforddiant i wella'r gallu i gyflawni'r rôl.
6. Cefnogi’r gwaith o gyflawni gwaith prosiect arall yn ôl yr angen.
7. Cefnogaeth gyda chynllunio, safoni a darparu digwyddiadau / gweithdai / hyfforddiant / gweminarau rhwydwaith ar-lein/wyneb yn wyneb sy'n ysbrydoli gweithwyr chwarae a rheolwyr ac yn cyfrannu at gyflawni hawl plant i chwarae a chyfranogi.
8. Chwilio am gyfleoedd cyllido newydd ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid i'w hadolygu gan y Rheolwr Llinell. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg.
9. Cefnogi gwaith strategol y sefydliad a chwarae rhan gadarnhaol mewn cyflawniadau o fewn y cynllun gwaith, er budd y sector gofal plant all-ysgol ledled Cymru. Bod yn aelod gweithgar o Dîm Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# SGILIAU A PHROFIAD CRAIDD

**Hanfodol**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau, gofynion a deddfwriaeth arall gyfredol AGC e.e. CCUHP, amddiffyn plant, diogelu, iechyd a diogelwch a chyfle cyfartal.
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion gofal plant a chwarae, a rôl Clybiau Gofal Plant All-Ysgol, o fewn yr agenda economaidd.
- Sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a'r gallu i weithio gydag ystod o wahanol bobl, o arweinydd y clwb ac aelodau'r pwyllgor i bersonél awdurdodau lleol a chyd-aelodau'r tîm.
- Y gallu i ysbrydoli ac ysgogi eraill.
- Y gallu i weithredu'n ddi-gymell, rheoli eich llwyth gwaith eich hun a gweithio fel rhan o dîm.
- Y gallu i gynnal systemau a chofnodion ar gyfer gweinyddu adroddiadau yn effeithiol.
- Llythrennedd cyfrifiadurol.
- Trwydded yrru lawn.
- Wedi ei addysgu hyd at lefel gradd neu gyfwerth a/neu profiad profedig mewn datblygu busnes/Gwaith Chwarae/Gofal Plant.
- Y gallu i ddefnyddio Excel.

**Dymunir**

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

## AMCAN 1.

Datblygu a sefydlu Clybiau Gofal Plant All-Ysgol newydd a/neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol. Nodi, gyda chymorth partneriaethau gofal plant, ardaloedd ar gyfer datblygu clybiau.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Helpu clybiau a sefydlwyd drwy gynghori a chefnogi pwyllgorau rheoli ac eraill gan ddefnyddio 'Camu Allan' ac offer ac adnoddau sgiliau busnes eraill.
- Helpu i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd a/neu ymestyn i ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr e.e. sesiynau gwyliau neu oriau hirach yn unol â chanfyddiadau'r rchwiliad i Ddigonolrwydd gofal plant ac yn ôl y galw.
- Helpu partïon budd i ddatblygu gofal plant all-ysgol.
- Anabod yr angen am ddatblygu a chefnogi ceisiadau grant ar gyfer cyllid cychwynnol a chynaliadwyedd.
- Gwneud cyflwyniadau i Benaethiaid ysgolion, a phartïon eraill â diddordeb, i hyrwyddo Clybiau All-ysgol yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda'r awdurdodau lleol, ysgolion, cymunedau ac eraill i nodi'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf, fel y nodwyd yn yr Archwiliad i Ddigonolrwydd Gofal Plant.
- Gweithio ar y cyd â'n partneriaid yn Cwlwm / cyfundrefnau eraill i ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth bresennol i gynnwys Gofal Plant All-ysgol. Cofnodi ymholiadau am glybiau a lleoedd gofal-plant newydd ac ymestyn gwasanaethau.
- Diweddaru'r system TG/y Rheolwr Perthnsoedd Cwsmeriaid yn barhaus ac erbyn diwedd pob mis fan bellaf.

## AMCAN 2.

Cefnogi clybiau newydd a phresennol a'u helpu i ddatblygu safonau ansawdd, gan gynnwys cefnogaeth ac anogaeth i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Annog pob clwb anghofrestredig i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (lle bo hynny'n berthnasol).
- Cefnogi lleoliadau i gofrestru gyda CThEM ar gyfer Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant i gefnogi fforddiadwyedd.
- Darparu cyngor ac arweiniad i leoliadau ar yr holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Ymateb i ymholiadau a rhoi arweiniad ar staffio, recriwtio mwy ddiogel (staff a chymunedau), cofrestru ag AGC, cyllid, marchnata, cynaliadwyedd, cyllidebu, monitro a strwythur cyfreithiol a mentrau gofal-plant eraill.
- Cysylltu â chydweithwyr am gymorth dilynol priodol lle mae angen cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor ychwanegol.
- Cefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol i asesu eu harferion ansawdd a busnes eu hunain, a nodi meysydd i'w gwella e.e. drwy gwblhau Pecynnau Cymorth Asesu/Gwella Ansawdd a Chynlluniau Gweithredu.
- Annog lleoliadau i fyfyrio ar eu diwylliant a'u harferion cynhwysol, gan gynnwys gwrth-hiliaeth, a chyfeirio at adnoddau a hyfforddiant lle bo hynny'n briodol.
- Annog lleoliadau i wreiddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd drwy ymgysylltu â Camau a'r Addewid Cymraeg mewn cysylltiad â'r Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant Iaith Gymraeg.
- Darparu mentora sgiliau busnes i glybiau presennol lle bo angen a lle mae anghenion wedi'u nodi trwy gyfrwng offeryn gwella ansawdd, gan ddefnyddio adnoddau gan gynnwys 'Camu Allan' Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, 'Camu Allan' 'Ei Chwael Hi'n Yawn y Greifituhol', a chyrsiau/adnoddau sgiliau busnes eraill.
- Datblygu adnoddau newydd ac adolygu a diweddaru adnoddau presennol i gefnogi'r sector.
- Cynnal system goleuadau traffig i nodi'r angen am fesurau gwella yn seiliedig ar anghenion busnes, hyfywedd, cofrestru ag AGC, adroddiadau arolygu a thargedau mesuradwy eraill. Yna bydd y gefnogaeth yn cael ei theilwra i ddiwallu anghenion pob lleoliad.
- Annog 100% o glybiau presennol i gadw/ennill aelodaeth gyda Chlybiau Plant Cymru ac ymateb i'r arolygon boddhad chwarterol ac arolygon eraill.
- Cefnogi gwaith strategol y sefydliad a chwarae rhan gadarnhaol mewn cyflawniadau o fewn y cynllun gwaith er budd y sector gofal plant all-ysgol ledled Cymru.

## AMCAN 3.

Cefnogi'r Clybiau Gofal Plant All-Ysgol i fod yn fwy cynaliadwy.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Hyrwyddo cyfleoedd lleol a chenedlaethol am ariannu i glybiau presennol.
- Cefnogi ceisiadau am ariannu a gwella systemau ariannol.
- Cefnogi o ran hyrwyddiad, gan gynnwys buddion chwarae, gofal wedi ei gofrestru , a defnydd-i'r-diben (ad hoc) e.e. trwy cwblhau Asesiad Pecyn Cymorth e.e. Cynllun Gweithredu ac MNA
- Helpu i ddatblygu ac adolygu llifau arian cyllidol er mwyn iddynt weithio i leihau gwariant lle bo hynny'n bosibl.

## AMCAN 4.

Cefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol i fabwysiadu strwythurau a llywodraethu cyfreithiol cadarn, gan gynnwys cymorth i bwyllgorau anghorfforedig symud i strwythur atebolrwydd cyfyngedig mwy addas.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Annog nifer darged o glybiau i gwblhau archwiliadau/rhestrau gwirio gwella ansawdd er mwyn nodi anghenion cefnogi clybiau a datblygu Cynlluniau Gweithredu.
- Cefnogi lleoliadau i adolygu a gwella eu llywodraethu, cyflwyno sesiynau sgiliau busnes pwyllgor, cefnogi gyda set gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau pwrpasol (yn enwedig lle mae lleoliadau'n cael eu cefnogi i ymestyn a rhaid iddynt ddiwallu anghenion Cylchoedd a Gofal Plant All-ysgol) ac, os yw'n berthnasol, cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.
- Cefnogi lleoliadau i sicrhau eu bod yn mabwysiadu strwythurau cyfreithiol cadarn, gan annog a chefnogi nifer darged o glybiau a reolir gan bwyllgor anghorfforedig i symud i strwythur cyfreithiol atebolrwydd cyfyngedig.
- Datblygu adnoddau i gefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol i gryfhau eu harferion llywodraethu a rheoli.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## AMCAN 5.

Nodi anghenion hyfforddi Gofal Plant All-Ysgol a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi gan gynnwys cymwysterau Gwaith Chwarae a datblygiad proffesiynol parhaus, arwyddbostio at hyfforddiant perthnasol a cwblhau hyfforddiant er mwyn gwella'r abledd i wneud y rôl.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cydweithio'n agos â chlybiau, Swyddogion Hyfforddi, Swyddogion Datblygu Gofal Plant Arweiniol, cyd-Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant ac Uwch Reolwyr a phartneriaid eraill i nodi anghenion hyfforddi yn y sir a gwneud cais / lleoli cyrsiau hyfforddi i ddiwallu'r anghenion fel y bo'n briodol.
- Cynnal archwiliad o anghenion hyfforddi gyda chlybiau unigol ac yn benodol, sicrhau bod staff mewn clybiau yn cael mynediad at hyfforddiant mewn diogelu plant trwy eu cyfeirio at hyfforddiant priodol.
- Recriwtio'r rhai sydd eisoes yn gweithio gyda phlant i ennill cymwysterau Gwaith Chwarae i alluogi lleoliadau i fod yn gofrestredig ag AGC.
- Hyrwyddo Gwaith Chwarae fel gyrfa i gefnogi recriwtio i'r sector, gan chwilio am gyfleoedd lle bynnag y bo modd.
- Cyflwyno hyfforddiant sgiliau busnes ar sail unigol neu grŵp yn ôl yr angen.
- Annog clybiau i fynychu hyfforddiant.
- Ymgymryd â hyfforddiant i helpu â datblygiad personol er mwyn cyflawni'r rôl. (Gwneud cais i'r Rheolwr Llinell am bosibiliadau hyfforddi.)

## AMCAN 6.

Cefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith prosiect arall yn ôl yr angen.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Gweithio'n agos â chydweithwyr a phartneriaid prosiect i hyrwyddo a recriwtio i brosiectau yn ôl yr angen e.e. Prosiect 'Pawb a'i Le', Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cyrsiau Iaith Gymraeg CYMell, a phrosiectau hyfforddi.
- Cyflenwi a monitro canlyniadau prosiectau lle bo hynny'n berthnasol ar gyfer rôl y swydd.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## AMCAN 7.

Cefnogaeth gyda chynllunio, safoni a darparu digwyddiadau / gweithdai / hyfforddiant / gweminarau rhwydwaith ar-lein/wyneb yn wyneb sy'n ysbrydoli gweithwyr chwarae a rheolwyr ac yn cyfrannu at gyflawni hawl plant i chwarae a chyfranogi.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cefnogi'r gwaith o nodi pynciau, lleoliadau, dulliau cyflwyno ac eitemau agenda addas ar gyfer Digwyddiadau Rhwydwaith, gan gynnwys cysylltu â fforymau a thrydydd partïon eraill.
- Cefnogi hyrwyddo a darparu Digwyddiadau Rhwydwaith (ar-lein ac wyneb yn wyneb)
- Trefnu a Chyflwyno hyfforddiant Gwaith Chwarae Lefel 1.
- Cynllunio, ysgrifennu a chydweithio ynghylch deunyddiau hyfforddi//gweithdai/gweminarau ar gyfer staff Clwb Gofal Plant All-Ysgol a'r rheolwyr ac adolygu/diweddaru cyrsiau presennol. Darparu hyfforddiant yn unol â'r fformat a'r cynllun y cytunwyd arno.
- Rhannu profiadau o ddarparu gweithdai i gefnogi datblygiad a gwelliannau parhaus a rhoi ar waith newidiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r safoni.
- Sicrhau ymgyfarwyddo â chynnwys cyn ei gyflwyno.
- Cwblhau'r gwaith papur mewnol a'r gwiriadau diogelwch sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflenwi..
- Bod yn eiriolwr dros Glybiau Gofal Plant All-Ysgol, chwarae a hawliau plant wrth gynrychioli'r sefydliad.
- Casglu ac adolygu gwerthusiadau o weithdai, rhannu awgrymiadau i wella, gan greu adroddiad gwerthuso pan fo angen.

## AMCAN 8.

Chwilio am gyfleoedd cyllido newydd ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid i'w hadolygu gan y Rheolwr Llinell. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Nodi cyfleoedd ariannu ar gyfer yr ardal a'r sefydliad ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid i'w hadolygu gan Swyddogion Arweiniol/Rheolwyr Datblygu.
- Datblygu adnoddau newydd a llunio strategaethau i hyrwyddo o lledaenu'r defnydd o adnoddau newydd a phresennol. Mae hyn yn cynnwys adnoddau Cymraeg.

## AMCAN 9.

Cefnogi gwaith strategol y sefydliad a chwarae rhan gadarnhaol mewn cyflawniadau o fewn y cynllun gwaith, er budd y sector gofal plant all-ysgol ledled Cymru. Bod yn aelod gweithgar o Dîm Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol a chwarae rôl gadarnhaol a chynhyrchiol. Os bydd cyfarfodydd neu hyfforddiant eraill yn amharu ar bresenoldeb yng nghyfarfodydd Tîm a Chymru Gyfan, rhaid trafod hyn gyda'r Rheolwr Llinell a fydd yn penderfynu (weithiau mewn cysylltiad â'r Prif Swyddog Gweithredol), beth ddylai gael y flaenoriaeth.
- Mynychu cyfarfodydd gyda'r Timau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i hyrwyddo twf gofal plant all-ysgol yn yr ardal.
- Gweithio mewn partneriaeth ag aelodau eraill Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion strategol, gan gynnwys ei amcanion o dan y Cynnig Cymraeg
- Cyfrannu at gyfathrebiadau allanol y sefydliad e.e. bwletin wythnosol a'r newyddlen chwarterol.
- Adrodd yn fisol i Arweinwyr ynghylch cynnydd yn erbyn targedau.
- Bwydo i mewn i adroddiadau chwarterol yn ôl yr angen
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau gofal plant eraill tra'n sicrhau mai ar strategaeth ein sefydliad ni y rhoddir y pwys pennaf.
- Hyrwyddo digwyddiadau lleol a chyfleoedd rhwydweithio.
- Mynychu sesiynau goruchwylio misol gyda'r Rheolwr Llinell a'u cadw mewn cysylltiad agos â blaenoriaethau gwaith a blaenoriaethau gwaith. I ddechrau, bydd y Rheolwr Llinell, ar sail fisol, ac yna, yn y pen draw, yn dymhorol ac yn flynyddol, yn gosod y blaenoriaethau gwaith ar gyfer staff newydd.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau / gwybodaeth berthnasol yn cael eu cwblhau bob mis ac erbyn diwrnod olaf y mis fan bellaf.
- Cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer Rheolwr Llinell/Rheolwr Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac eraill yn ôl yr angen ac ymhell cyn y dyddiad cyflwyno.



# SUT I YMGESIO

Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar eirdaon boddhaol, gwiriadau hunaniaeth a gwiriadau DBS (os yn gymwys) ar y lefel briodol.

CWBLHEWCH Y CAIS ELECTRONIG YMA

CWBLHEWCH Y FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL YMA

Gwyddom y gall cyfweliadau fod yn brofiad brawychus. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, rydym am eich gwneud yn gyfforddus drwy:

- Cynnig y cyfle i siarad ag aelod o'r tîm cyn y cyfweliad i sgwrsio.
- Ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu unrhyw ofynion mynediad sydd gennych a rhoi unrhyw ofynion angenrheidiol yn eu lle o fewn amser da.
- Rhannu fformat y cyfweliad a'r hyn a ddisgwylir gennych ymlaen llaw, er mwyn i chi allu paratoi'n dda, a theimlo'n fwy cyfforddus a rheolaethol, a fydd hefyd yn ein helpu i gael y gorau ohonoch.
- Sicrhau panel cyfweld sy'n gynrychioliadolol o'r.

Rydyn ni am i'r profiad fod yn un dymunol y byddwch chi'n myfyrio arno'n gadarnhaol waeth beth fo'r canlyniad. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddarllen amdanoch, i ddod i'ch adnabod ymhellach.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi! P'un a ydych yn llwyddiannus ai peidio ar bob cam o'r rhestr fer, byddwn mewn cysylltiad â'r camau nesaf ac yn hapus i gynnig adborth i chi ar eich cais/cyfweliad.

### Y dyddiadau allweddol:

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – 23/08/2026
- Gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad erbyn – 26/08/2026
- Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau - 31/08/2026

I gael cymorth gyda'ch cais neu i drafod y broses recriwtio gallwch gysylltu â'n Uwch Weinyddwr Cyffredinol cyfeillgar Becci.

02920 741000 recruitment@clybiauplantcymru.org



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol sydd o ansawdd, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

**Rydym yn gyfundrefn Gymru-eang sy'n helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol. Rydym yn helpu clybiau, neu ddarpar glybiau, i wneud ceisiadau a gyllid ac rydym yn hyfforddi a chefnogi staff yn ystod sefydlu clwb ac yna yn ei rediad.**

# POB HWYL GYDA'CH CAIS!

**www.clybiauplantcymru.org**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW

Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

Yn gweithio mewn partneriaeth â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government